YMWELWYR IECHYD

Ar ôl graddio fel Ymwelydd Iechyd, fel arfer byddwch yn gallu:

- Ymarfer sgiliau rhifedd a TGCh.
- Casglu gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau.
- Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a gesglir yn systematig ac ymarfer barn broffesiynol gyda hyder.
- Cyfathrebu'n effeithiol gyda'r cleient neu'r claf, eu perthnasau a'u cynhalwyr a'r grŵp/cymuned/poblogaeth, am eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol.
- Defnyddio technegau asesu a nodi anghenion a phroblemau iechyd a chorfforol, seicolegol, cymdeithasol a diwylliannol dros dro.
- Cydnabod cyfraniad eich asesiad ym maes gofal iechyd drwy gyfathrebu'n effeithiol ag aelodau eraill o'r tîm iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynnal safonau a gofynion cyrff rheoleiddio proffesiynol a statudol a chydymffurfio â chodau ymarfer perthnasol.
- Deall cyfrifoldebau cyfreithiol a moesegol ymarfer proffesiynol.
- Cynnal egwyddorion ac ymarfer cyfrinachedd cleifion/cleientiaid.
- Cyflawni dyletswydd gofal proffesiynol i gleifion, cleientiaid a chynhalwyr.
- Cydnabod y ddyletswydd i gynnal addasrwydd i ymarfer a'r angen am ddatblygiad proffesiynol parhaus a dysgu.
- Cyfrannu at ddatblygu a dosbarthu ymarfer ar sail tystiolaeth mewn cyd-destunau proffesiynol.

Cipolwg ar Ymwelwyr Iechyd

Mae gwaith ymwelwyr iechyd yn ddisgyblaeth arbenigol ym maes ymarfer nyrsio cymunedol. Mae'n canolbwyntio'n fawr ar iechyd y cyhoedd ac yn rhannu meysydd ymarfer a nodau gofal iechyd gyda chydweithwyr ym maes gofal sylfaenol a galwedigaethau eraill. Ystyrir mai chwilio am anghenion iechyd yw prif swyddogaeth yr alwedigaeth. Drwy weithio gydag unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymunedau, mae ymwelwyr iechyd yn ceisio hybu iechyd a lles ac atal salwch. Tra bod pwyslais o fewn ymarfer ymwelwyr iechyd ar iechyd plant a theulu, mae gweithio gyda phoblogaethau a chymunedau i fynd i'r afael â materion anghydraddoldebau iechyd a chymdeithasol ac allgáu cymdeithasol yn cynrychioli ffocws cynyddol ar iechyd y cyhoedd.

Sources:

Mae'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd yn ddeinamig ac yn canolbwyntio ar iechyd ac yn gallu ymateb yn hyblyg i amrywiaeth o anghenion gwasanaeth a chymunedol. Mae'r gwasanaeth ymwelwyr iechyd yn cael ei ategu gan bedair egwyddor sy'n arwain a chyfeirio ymarfer proffesiynol: chwilio am anghenion iechyd, sbarduno ymwybyddiaeth o anghenion iechyd, dylanwad polisïau sy'n effeithio ar iechyd a hwyluso gweithgareddau gwella iechyd.